**COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF ABERAERON A GYNHALIWYD AR NOS FAWRTH IONAWR 13eg 2026 AM 7.00yh YN NEUADD GOFFA ABERAERON**

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Tim Archer (Cadeirydd); Y Cynghorwyr Aled Davies, Phillip Davies, Rhys Davies, Elizabeth Evans, Lloyd Garvey, Rhodri Jones, a Diana Mace.
Mr Denfer Morgan – Clerc y Cyngor.

**675. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Darryl Evans ac Agnieszka Kalinowska.

**676. DATGGELU BUDDIANT PERSONOL**

Datgelodd y Cynghorwyr isod fuddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yn y materion a nodwyd, gan beidio cymryd rhan yn y drafodaeth a'r pleidleisio.

Cynghorydd Tim Archer – cais yr Ambiwlans Awyr a gyfeiriwyd ato yng Nghofnod 682a).
Cynghorydd Elizabeth Evans – cais Pwyllgor Rheoli Pwll Nofio Aberaeron a'r Cylch a gyfeiriwyd ato yng Nghofnod 683.
Cynghorydd Rhodri Jones – cais cynllunio A250948 a gyfeiriwyd ato yng Nghofnod 681 a chais Pwyllgor Rheoli Pwll Nofio Aberaeron a'r Cylch a gyfeiriwyd ato yng Nghofnod 683.

**677. CADARNHAD COFNODION Y CYFARFOD MISOL AR RAGFYR 9fed 2025**

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod misol ar Ragfyr 9fed 2025 yn gywir.

**678. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Cofnod 665 - trafodaethau gyda Chlwb Peldroed Aberaeron: gofyn i'r Cynghorwyr Darryl Evans, Elizabeth Evans a Rhodri Jones i gwrdd i drafod y drwydded drafft diwygiedig a anfonwyd at y Clwb.
Cofnod 665 – Harbwr: nodi y byddai'r Cynghorydd Archer yn drafftio ymateb i'r Cyngor Sir ar y materion pryder a nodwyd yn flaenorol.
Cofnod 665 - Goleuadau'r Harbwr: adrodd ar y goleuadau diffygiol i'r cyflenwyr Lite Ltd yn ôl y warant cynnyrch.
Cofnod 668 – gofyn i'r Clerc i gynnal trafodaethau gyda'r contractwr i lenwi'r tyllau yn y ddau faes chwarae.
Cofnod 670 – cytuno i gynnal y Nadolig Cymunedol ar Ddydd Gwener Tachwedd 27ain 2026.

**679. MATERION CYLLID**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r taliadau_canlynol:

| Anfoneb | Cyfanswm |
|---|---|
| Telemat (darpariaeth WiFi Hyd-Tach-Rhag 2025) | £119 |
| Teresa Tanahill (glanhau'r stryd Tachwedd a Rhagfyr - 102 awr @ £16 yr awr) (Atodiad B) | £1,632 |
| Cyngh. Tim Archer (ad-daliad planhigion) | £69.69 |

| | |
|---|---|
| Dylan Jones (Cytundeb Torri Gwair)<br>MoleControl (delio gyda llygod ffyrnig yn y Cae Sgwâr) | £8,540<br>£600 |

## 680. LLYFRYN Y DREF 2026

**PENDERFYNWYD** prynu hysbyseb tudalen llawn arferol yn Llyfryn y Dref 2026, gan adolygu'r cynnwys yn unol â'r polisi cyfathrebu.

## 681. MATERION CYNLLUNIO

Rhoddwyd ystyriaeth i'r cais cynllunio *A250948 – Tir nesaf i Gwelfro, Heol y Bryn Aberaeron. Annedd Marchnad Agored arfaethedig.*

**Penderfyniad:** Gwrthwynebu'r cais oherwydd pryder nad oedd yr annedd arfaethedig yn cyd-fynd gydag anheddau cyfredol yn y safle, a'i fod yn syrthio tu allan i'r Cynllunio Datblygu Lleol ar gyfer y dref.

## 682. MATERION TIR Y CYNGOR

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

**a)** Rhoddwyd ystyriaeth i gais gan Ambiwlans Awyr ar gyfer digwyddiad codi arian Cerdded Tân ar ddyddiad i'w nodi ym mis Mawrth, a **PHENDERFYNWYD** aros am wybodaeth bellach yng nghyfarfod mis Chwefror.

b) **Parc-y-Fro:** atgoffa Dylan Jones am yr angen i dorri'r goeden yn y maes chwarae.

**c)** Rhoddwyd ystyriaeth i gais Feelz On Wheelz, caffi cefnogi ieuenctid, am gyngor ar leoliadau posib i roi'r fan yng ngwanwyn a haf 2026, a **PHENDERFYNWYD** gofyn iddynt gysylltu gyda 'r Cyngor Sir i adnabod lleoliadau posib, gan gynnwys pen pellaf Pen Cei.

**ch) Coed:** trefnu ymweliad safle gyda Dylan Jones i ddelio gyda'r coed heintus a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol, a chysylltu gyda Martin Williams ynghylch y gwifrau trydan yn effeithio ar y coed yma.

## 683. PWLL NOFIO ABERAERON A'R CYLCH

Rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

a) **2025-26 Cymorth ariannol**: nodwyd y wybodaeth ariannol ddiweddaraf a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Rheoli a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo taliad mis Ionawr o £1,400.

b) **Cais am gymorth ariannol ar gyfer 2026-27**: roedd y wybodaeth yn nodi trafodaethau gyda swyddogion y Cyngor Sir ynghylch costau trydan, a byddai datrysiad yn fuan.
Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cytuno ar gyfraniad o £550, sef cyfraniad blynyddol y Cyngor yma, gyda chwyddiant; a chytuno i adolygu'r sefyllfa unwaith y derbyniwyd eglurdeb ar gyllid y Pwll ar gyfer 2026-27.

**684. CYFATHREBIADAU CYNGOR Y DREF**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r polisi cyfathrebu a gyfeiriwyd ato yng Nghynllun Busnes y Cyngor, a **PHENDERFYNWYD** cytuno mewn egwyddor i gynhyrchu polisi a chyfeirio'r mater at yr Is-bwyllgor Digidol ynghyd â'r Cynghorydd Diana Mace.

**685. TREFNIADAU STORIO**

**PENDERFYNWYD** gwneud rhestr o'r eitemau a ddelir gan yr Aelodau a'r Clerc ar gyfer ystyried darparu storfa ganolog i'r rhain.

**686. RHEOLAETH YR HARBWR GAN Y CYNGOR SIR**

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** rhoi gwybodaeth i'r Cyngor Sir, ym marn y Cyngor, y dylid cau pob un o'r pedair llifddor ar Ben Cei a Phwllcam unwaith y byddai rhybudd llifogydd ar gyfer yr ardal, a'u hail-agor pan fyddai'r rhybudd wedi pasio.

**687. DATBLYGIAD HEOL Y FARCHNAD**

Datganodd y Cynghorydd Elizabeth Evans fod y Cyngor Sir nawr yn cynnig cynllun diwygiedig ar gyfer ail-ddatblygu Heol y Farchnad, yn cynnwys ail-ddylunio'r palmentydd uwch a ffurfiad y ffordd a roddwyd yno yn ystod cyfnod clo Covid19 a fyddai'n gwella cyfleusterau parcio.

**PENDERFYNWYD** cefnogi'r cynllun.

**688. CHWYNNU YN Y DREF**

Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi cadarnhau ei bolisi i ymgymryd â chwynnu palmentydd, strydoedd ac ardaloedd cyhoeddus yn y dref os oedd, a phan fyddai, adnoddau ar gael. Ynghylch y cais i gwrdd â chontractwr glanhau'r stryd y Cyngor yma gydag Aelodau i drafod ambell bryder am y gwasanaeth gan y Cyngor Sir, nodi'r contractwr nad oedd yn addas, gan fod y materion a godwyd yn cyfeirio at oruchwyliaeth a rheolaeth gwasanaethau'r Cyngor Sir, a'u bod yn dal i ddarparu gwasanaeth glanhau stryd, a werthfawrogwyd a sylwyd arno fel mater o safon uchel.

**689. DIWEDDARIAD PROSIECT DIGIDOL**

a) Ap - nid oedd y Clerc wedi derbyn unrhyw wybodaeth bellach hyd yn hyn gan y darparwr, ac nid oedd darpariaeth yng nghyllid 2026-27 ar gyfer yr ap.

b) Roedd y gwe-gamera yn weithredol.

c) Cytunwyd i leoli'r pwynt lluniau ynghylch trafodaethau am ei leoliad.

ch) Adroddodd y Cynghorydd Aled Davies ar leoliadau cyfredol y sensorau a leolwyd gan y Cyngor Sir, yn enwedig ar Riwgoch, a'r wybodaeth ganddynt. Nodwyd bod y Cyngor Sir yn barod i ystyried gosod mwy o sensorau ac awgrymwyd lleoliadau megis yr harbwr a glan yr afon. Gwahoddwyd yr Aelodau i

feddwl am leoliadau addas. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Elizabeth Evans i gael gafael ar gopi o'r cytundeb WiFi gan y Cyngor Sir.

**690. MATERION YR HARBWR**

Rhoddwyd ystyriaeth i sawl mater.

Yn gyntaf, cyfeiriwyd at y graean yn ymgasglu ar ochr ddeheuol ceg yr harbwr, a chyfeiriodd y Cynghorydd Elizabeth Evans at y gweithredu a wnaed gan y Cyngor Sir ynghylch hyn, gan gynnwys trafodaethau gydag ymgynghorwyr dylunio'r cynllun. Byddai'r Cyngor Sir yn carthu'r banc yn fuan. Roedd yn amlwg hefyd mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir oedd cwrdd â chost unrhyw waith ychwanegol i'r gwaith cytundebol, a amcangyfrwyd i fod yn £4.1m allan o'r arian wrth gefn.

Yn ail, cyfeiriwyd at erydiad Traeth y De a'r banc graean a weithredwyd arno.

Nodwyd y byddai'r cychod yn dychwelyd i'r harbwr ar Ebrill 21ain.

Roedd trafodaethau cyllid yn awgrymu y byddai cynnydd o 5% yn y ffioedd harbwr.

**691. CYNLLUN GRANT TREFI TACLUS**

Rhoddwyd ystyriaeth i dermau'r Cynllun Grant Trefi Taclus arfaethedig, ble roedd swm o £10,000 ar gael ar gyfer ariannu cynlluniau i wella ymddangosiad y dref.

**PENDERFYNWYD** cynhyrchu cais yn seiliedig ar ganllawiau'r Cynllun ac awdurdodi'r Maer, y Dirprwy Faer a'r Cynghorydd Elizabeth Evans a'r Clerc i gytuno ar y cynnwys.

**692. CYLLID, ARCHEBIANT A THRETH Y CYNGOR 2026-27**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cyllid Drafft a gynhyrchwyd gan y Clerc ar gyfer ei drafod gan yr Aelodau.

Cafwyd trafodaeth fanwl ar anghenion cyllidol y Cyngor yng nghyd-destun y gwasanaethau a gynigiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27.

Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth ar y cyfraniad i'w wneud i Bwll Nofio Aberaeron a'r Cylch, fel nodwyd yn y penderfyniad a gofnodwyd yng Nghofnod 683 uchod, a chytunwyd i newid penawdau'r gyllideb i gynnwys hyn.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r canlynol:

i) Cynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor;
ii) Cyllideb ar gyfer 2026-27 i'r cyfanswm £64,875;
iii) Archebiant i'r cyfanswm £55,083; a
iv) Treth y Cyngor ar gyfer Band D i'r cyfanswm £65.57.

**693. ADOLYGIAD CYMUNED CEREDIGION**

Cytunwyd y dylai'r Maer a'r Clerc fynychu seminarau ar y we Un Llais Cymru ar Adolygiad Cymuned Ceredigion.

**694. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR ELIZABETH EVANS**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir Elizabeth Evans at y materion canlynol:-

- Roedd hi'n delio gyda'r problemau parhaus ynghylch gwelededd Heol y Bryn / Heol y Tywysog yn ymwneud â'r gweithiau adeiladu.
- Cafwyd adroddiadau parhaus ar dyllau yn y ffordd
- Roedd yr A482 i'w ail-arwynebu o ddechrau Heol y Tywysog hyd at gylchfan Godre Rhiwgoch.

Gorffennwyd y cyfarfod am 10.00yh.